


# sylfaen

## gweithgareddau 1-4

Noddir gan
Llywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

# sylfaen 1

## holi staff yr amgueddfa                                                    tiwtor

**Nod: Cael y dysgwyr i holi staff am yr Amgueddfa a llenwi ffurflen. Wedyn, dod yn ôl i drafod a chymharu eu hatebion.**

**Camau**

1. Sicrhau bod y dysgwyr yn gallu gofyn y cwestiynau a restrir isod.

2. Dosbarthu'r taflenni.

3. Cwrdd â nhw i drafod eu hatebion.

1. Am faint o'r gloch mae'r Amgueddfa'n agor?
2. Am faint o'r gloch mae'r Amgueddfa'n cau?
3. Ydy'r Amgueddfa ar agor bob dydd o'r wythnos?
4. Faint o bobl sy'n gweithio yma?
5. Pwy yw pennaeth yr Amgueddfa?
6. Faint yw hi i ddod i mewn?
7. Faint yw cwpanaid o goffi?
8. Faint yw cawl a rholyn bara?
9. Oes rhaid talu am barcio car?
10. Ble mae Melin Teifi?
11. Enwch ddau beth 'dych chi'n gallu eu prynu yn y Siop.
12. Pwy yw awdur y llyfr *Dre-fach Felindre a'r Diwydiant Gwlân* sy ar werth yn y Siop?



# sylfaen 1

## holi staff yr amgueddfa

**dysgwr**

Defnyddiwch y taflenni i nodi'r atebion i'ch cwestiynau. Rhaid ichi geisio siarad â thri o bobl wahanol gan ofyn pedwar cwestiwn i bob un.

| Cwestiwn | Ateb | | |
|---|---|---|---|
| | Person 1 | Person 2 | Person 3 |
| 1. Amser agor | | | |
| 2. Amser cau | | | |
| 3. Ddim ar agor | | | |
| 4. Nifer y staff | | | |
| 5. Enw'r Pennaeth | | | |
| 6. Pris mynediad | | | |

# sylfaen 1

## holi staff yr amgueddfa

## dysgwr

| Cwestiwn | Ateb | | |
|---|---|---|---|
| | Person 1 | Person 2 | Person 3 |
| 7. Pris coffi | | | |
| 8. Pris cawl a rholyn bara | | | |
| 9. Tâl am barcio car | | | |
| 10. Lleoliad Melin Teifi | | | |
| 11. Dau beth | | | |
| 12. Enw'r awdur | | | |

# sylfaen 2

## offer y grefft

## tiwtor

**Nod: Dod i adnabod offer crefft gwehyddu a dysgu eu henwau. Dilyn sgwrs syml gan y Swyddog Addysg neu'r Tiwtor.**

**Camau**

1. Paru'r lluniau a'r geiriau er mwyn i'r dysgwyr ddod yn gyfarwydd â'r eirfa a'r offer.

2. Trafod y gwrthrychau go iawn a phenderfynu pa rai sy'n perthyn yn agos i'w gilydd.

3. Esbonio arwyddocâd y parau:

   gwerthyd/edafedd     cribau/llysiau'r cribwr     gwennol/gwŷdd

4. Cyflwyno'r patrymau:

   Dyma'r wennol? Ie/Nage
   Beth oedd pwrpas cribau?
   Roedden nhw'n defnyddio X i ____________________

   Mae'n rhaid cael X i ____________________

**Geirfa:**

nyddu
gwehyddu
cribo



# sylfaen 2

## offer y grefft

## dysgwr

1. Parwch y lluniau â'r geiriau a ganlyn:














gwerthyd gwŷdd cribau edafedd gwennol llysiau'r cribwr

2. Edrychwch ar y gwrthrychau/offer gyda'r Tiwtor neu'r Swyddog Addysg ac wedyn cwblhewch y brawddegau:

Roedden nhw'n arfer defnyddio gwerthyd i ________________________.

Roedden nhw'n arfer defnyddio llysiau'r cribwr i __________________ gwlân.

Mae'n rhaid cael ________________________ i wehyddu.

Mae'n rhaid cael ________________________i gribo gwlân.

Mae'r wennol yn cario'r ________________________ ar draws y gwŷdd.

# sylfaen 2

## offer y grefft

## dysgwr

3. Beth yw'r geiriau Cymraeg am:

   *to weave*
   *combing bats*
   *a shuttle*
   *a loom*
   *teasels*
   *thread*
   *a spindle*

4. Dysgwch:

   Mae'n bwrw glaw allan
   Mae'n hindda'n y tŷ
   Mae merched Tregaron
   Yn nyddu gwlân du.

   [hindda = *fine and dry weather*]

# sylfaen 3

## dŵr a gwlân

tiwtor

**Nod: Dysgu mwy am wlân ac am bwysigrwydd dŵr i'r diwydiant.**

**Camau**

1. Y dysgwyr i ymgynnull yn yr Iard Hir a gweithio mewn grwpiau bach. Disgwylir iddynt gwblhau'r ddwy dasg.

2. Bydd y grwpiau'n gweithio yn eu tro ar baneli 'Bro a Bywyd Law yn Llaw' a 'Garw a Mân'.



# sylfaen 3

## dŵr a gwlân

## dysgwr

**Grŵp A**

Ewch at banel 'Bro a Bywyd Law yn Llaw' a dewiswch yr ateb cywir:

Roedd Melin Newydd yn cynhyrchu…

a) brethyn b) blawd c) edafedd

Beth ar ystâd Llysnewydd oedd yn bwysig i waith Melin Cambrian?

a) pownd b) blawd c) gweithwyr

Mae dŵr yn bwysig i'r ffatri wlân…

a) i'r gweithwyr ymolchi b) i'w yfed c) i yrru'r peiriannau

Pa broses oedd yn llygru'r afon?

a) nyddu b) lliwio c) gwehyddu

Beth oedd yn rheoli llif dŵr yr afon?

a) llynnoedd b) tap c) pibellau

Yn ystod y nos roedd pyllau'r felin yn…

a) llifo b) gollwng c) llenwi


**Geirfa:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| pownd | *a leat* | blawd | *flour* |
| llygru | *to pollute* | rheoli | *to control* |
| pibell(-au) | *pipe(s)* | llifo | *to flow* |
| gollwng | *to leak* | edafedd | *thread* |
| llenwi | *to fill* | cynhyrchu | *to produce* |
| nyddu | *to spin* | gwehyddu | *to weave* |

# sylfaen 3

## dŵr a gwlân

## dysgwr



# sylfaen 3

## dŵr a gwlân

## dysgwr

**Grŵp B**

Ewch at banel 'Garw a Mân' a rhowch ✓ yn y blwch cywir.

| | bach | mawr | dof | gwydn | hyblyg | garw | mân |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dafad Mynydd Gymreig | | | | | | | |
| Kerry Hill | | | | | | | |
| Dafad Llanwenog | | | | | | | |
| Dafad Radnor | | | | | | | |




Dysgwch y geiriau hyn:

dof *tame*
hyblyg *versatile*
mân *fine*
gwydn *tough*
garw *rough*

**Yn eich barn chi:**

Pam roedd Dre-fach yn lle da iawn ar gyfer y diwydiant gwlân?


# sylfaen 4

## taith o gwmpas y pentref

dysgwr

**Nod: Dilyn llwybr o gwmpas y pentref ac ateb y cwestiynau. Mae pob rhif yn cyfateb i [*corresponds to*] le ar y map.**

**Taith o Amgylch y Fro**



# sylfaen 4

## taith o gwmpas y pentref
## dysgwr

1. Ewch allan trwy giât yr Amgueddfa. Trowch i'r dde ac i'r dde unwaith eto, a dilynwch y llwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr yr Amgueddfa. Edrychwch draw at yr Amgueddfa. Mae nifer o ffenestri gyda'r adeilad gyferbyn. Dyma hen sied wau [*weaving shed*] Melin Cambrian – adran [*section*] bwysig iawn. Roedd tuag 20 o bobl yno pan oedd yn ei hanterth [*at its peak*].

Pam, yn eich barn chi, mae gwydr barugog [*frosted*] ar waelod y ffenestri?

2. Cerddwch ymlaen at y bont ac arhoswch yna. Enw'r bont yw Pont y Glyn.

   Pam roedden nhw'n codi melinau ar lan afonydd?
   - i bysgota
   - i olchi dillad
   - i droi'r olwyn ddŵr [*water wheel*]

3. Ychydig ar ôl croesi'r bont, mae tŷ mawr ar y llethr [*slope*] ar y dde, o'r enw Y Glyn.

   Pwy oedd yn byw yma? Perchennog neu weithiwr [*owner or worker*]?
   Sut 'dych chi'n gwybod?

4. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr, trowch i'r chwith ac ewch trwy'r giât. Ychydig ymlaen, ac yn uwch i fyny ar ochr y bryn [*higher on the side of the hill*] ar y dde, mae Cryngae.

   Beth yw Cryngae?
   - fferm
   - plas [*mansion*]
   - tafarn

5. Ewch ymlaen a thrwy giât arall. Wedi cyrraedd yr heol, trowch ychydig i'r dde. Mae adeilad o'ch blaen. Dyma hen ffatri wlân Cilwendeg.

   Dewiswch dri gair sy'n disgrifio'r adeilad.


6. Trowch yn ôl i'r chwith a dilynwch yr heol ymlaen heibio i arwydd [*sign*] Pwllmarl, ger y byngalos. Trowch i'r chwith unwaith eto, a dilyn y lôn trwy glos [*farmyard*] Pwllmarl. Ar ôl croesi'r afon, edrychwch i'r dde ar draws y cae. Dyma ffatri Meiros.

   Sut mae'r ffatri hon yn wahanol [*different*] i'r ffatroedd eraill?

# sylfaen 4

## taith o gwmpas y pentref

dysgwr



7. Croeswch y bont nesaf a dilynwch y llwybr i fyny at hên ffatri wlân Square Hall.

   Beth sy'n digwydd yn yr adeilad heddiw?
   Pam 'dych chi'n meddwl bod enwau Saesneg ar rai o'r ffatrïoedd hyn?

8. Cerddwch ymlaen at yr heol. 'Dych chi nawr yn ôl yn stryd fawr y pentref. Trowch ychydig i'r dde. Mae capel Bethel ar y chwith.

   Pryd cafodd y capel ei adeiladu?

9. Yn nes ymlaen mae tŷ mawr ar y chwith o'r enw 'Meiros Hall'.

   Ble 'dych chi wedi gweld yr enw 'Meiros' o'r blaen?

10. Pan ddewch at fforch [*fork*] yn yr heol, trowch i'r chwith ac ewch i fyny'r bryn. Trowch i'r dde gyferbyn â mynwent [*graveyard*] Bethel ac fe welwch fynwent arall ar y gornel. Ewch i mewn iddi.

    Beth oedd enw'r capel oedd yn sefyll yma unwaith?
    Ble mae'r capel nawr?

# sylfaen 4

## taith o gwmpas y pentref

## dysgwr

11. Trowch i'r dde allan o'r fynwent. Dilynwch yr heol nes ichi ddod at dŷ o'r enw Dolwïon. Gwelwch lôn gul [*a narrow lane*] ar y dde yn arwain at ffatri.

    Gwrandewch ar eich tiwtor, ac wedyn dywedwch beth yw'r cysylltiad [*connection*] rhwng y ffatri yma ac Unol Daleithiau America [*USA*].

12. Ewch heibio i ffatri Dolwïon a dilynwch y llwybr nes ichi gyrraedd yr heol fawr. Trowch i'r dde.

    Wrth gerdded yn ôl trwy'r pentref, beth sydd wedi ei ysgrifennu ar ffrynt un o'r tai ar y dde?
    Pam 'dych chi'n meddwl bod angen y lle hwn ar y pentref unwaith?

13. Croeswch y bont dros Afon Esger. Mae ysgol ar y chwith.

    Beth yw enw'r ysgol?
    Pa fath o ysgol yw hi?

14. Wrth ochr yr ysgol mae eglwys a mynwent. Ewch i mewn i'r fynwent.

    Beth yw enw'r eglwys?
    Yn y fynwent, y tu ôl i'r eglwys, y mae tair carreg fedd (gravestones) fawr iawn.
    Pwy oedd y teuluoedd hyn?



# sylfaen 4

## taith o gwmpas y pentref dysgwr

15. Enw'r sgwâr y tu allan i'r eglwys yw Sgwâr y Giât. Ewch yn ôl i'r pentref, heibio i'r neuadd.

    Beth yw enw neuadd y pentref?
    Pa fath o bethau sy'n digwydd yno? Holwch bobl neu edrychwch am bosteri.

    Ewch yn syth ymlaen i'r Amgueddfa i gwrdd â'ch tiwtor er mwyn trafod eich atebion.